

Gwerthuso'r Grant ar gyfer Gwasanaethau Cyngori Rheng Flaen (grant GCRhF)

Crynodeb Gweithredol

1. Nodau a methodoleg ymchwil

- 1.1 Comisiynwyd Old Bell 3 gan Lywodraeth Cymru i gynnal adolygiad proses a chanlyniad o'r Grant Gwasanaethau Cyngori Rheng Flaen (grant GCRhF). Roedd disgwyl i'r gwerthusiad adolygu i ba raddau yr oedd y grant GCRhF yn cyflawni ei dibenion penodedig ac adnabod effeithiau'r ymyrraeth ar fuddiolwyr.
- 1.2 Mae'r gwerthusiad yn seiliedig ar raglen waith a gyflawnwyd rhwng mis Hydref 2015 ac Ionawr 2016 a oedd yn cynnwys cyfnod sefydlu a chwmpasu, datblygu model rhesymeg, cynnal adolygiad llenyddiaeth o ddogfennau allweddol, paratoi adolygiad polisi ysgafn a datblygu canllawiau trafod lled-strwythuredig. Roedd hefyd yn cynnwys pecyn o waith maes gyda staff wedi'u lleoli yn y sefydliadau a ariennir gan y grant GCRhF, cyfweld swyddogion Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill a chynnal cyfweiliadau gyda 40 o fuddiolwyr grant GCRhF.

2. Cynllun grant GCRhF

- 2.1 Cyflwynwyd y grant GCRhF yn 2014 gan y cyn-Weinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, Jeff Cuthbert AC, fel cynllun ariannu tair blynedd newydd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi gwasanaethau cyngori rheng flaen am ddim, annibynnol ledled Cymru. Yn dilyn proses bidio agored, cyhoeddwyd ym mis Hydref 2014 y byddai pedwar gwasanaeth yn cael eu hariannu (wedi'u hól-ddyddio i fis Ebrill 2014) sef:
 - Cyngor ar Bopeth Cymru a Shelter Cymru i ddarparu cyngor arbenigol ar fudd-daliadau lles, tai a dyled
 - Cyngor ar Bopeth Cymru a SNAP Cymru i ddarparu cyngor arbenigol ar wahaniaethu ar draws yr ystod lawn o nodweddion gwarchoddedig
 - Age Cymru i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor i bobl hŷn a'u gofalwyr
 - Gofal Cancr Tenovus i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth a chyngor i gleifion canser a'u teuluoedd.
- 2.2 Mae'r grant GCRhF yn cynrychioli un o nifer o ffynonellau cyllid sy'n cefnogi'r sector

cynghori yng Nghymru. Yn ei gyfanrwydd darperir cyllid blynyddol o £2 filiwn gan Lywodraeth Cymru ac mae'r cynllun yn cefnogi gwaith dros 40 o swyddi ymgynghorol cyfwerth ag amser llawn.

- 2.3 Dros ei gyfnod darparu cychwynnol o 18 mis rhwng Ebrill 2014 a Medi 2015, cefnogodd y grant GCRhF bron i 38,000 o gleientiaid a chyfrannu tuag at ymdrin â 6,000 o gleientiaid a 15,000 o ymholiadau pellach. Yn ystod y cyfnod hwn hefyd cyfrannodd y grant GCRhF at gynnydd o £7.81 miliwn ar gyfer buddiolwyr ar draws dwy o'r cytundebau cyllid grant a chefnogodd gleientiaid i ddileu cyfanswm o £1.94 miliwn o ddyled.

3. Prif Ganfyddiadau

- 3.1 Canfu'r gwerthusiad bod rhesymeg glir i Lywodraeth Cymru sicrhau bod arian ar gael i gefnogi cyflenwi gwasanaethau cynghori rheng flaen yng Nghymru. Roedd cyflwyno grant GCRhF yn cyd-fynd ag ymrwymiad polisi Llywodraeth Cymru ar y pryd i gefnogi gwasanaethau cynghori rheng flaen er mwyn helpu lleddfu effeithiau amrywiol doriadau cyllido, yn bennaf o ganlyniad i ddiwygiadau lles Llywodraeth y DU a thoriadau i wasanaethau cymorth cyfreithiol. Canfu'r gwerthusiad hefyd fod y grant GCRhF yn cynrychioli ymdrech i fynd i'r afael â'r agenda eang a nodir yn yr Adolygiad o Wasanaethau Cynghori yng Nghymru i gynyddu cydweithredu, partneriaeth a rhwydweithio rhwng darparwyr cyngor ac i fabwysiadu dull mwy cyffredin i safonau ansawdd o fewn y sector.
- 3.2 Canfu'r gwerthusiad fod y grant GCRhF wedi ei gynllunio'n briodol gyda'r nod o annog dull llawer mwy strategol a chydlynol i ddarparu gwasanaethau cynghori yng Nghymru. Mae'r darpariaethau a ariennir, yn ein barn ni, wedi cyd-fynd â'r amcan hwn, yn enwedig yr ymdrechion i sefydlu gwasanaethau llinell gymorth genedlaethol newydd ar gyfer Cymru gyfan. Wrth fabwysiadu'r dull hwn, fodd bynnag, mae perygl fod rhywfaint o ddarpariaeth arbenigol a lleol wedi cael eu colli, a gallai fod yn werth ystyried y mater hwn mewn unrhyw rowndiau ariannu yn y dyfodol.
- 3.3 Deuwn i'r casgliad fod cyllid y grant GCRhF wedi cael ei gynnig i'r sector mewn modd hyblyg a bu hyn yn gryfder gwirioneddol i'r dull a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'n profi i fod yn ffynhonnell hollbwysig o gyllid ar gyfer sefydliadau a ariennir, yn enwedig o ran helpu'r sector i gynnal ei allu cynghori arbenigol a hefyd yn y ffordd y mae'n rhan-ariannu gwasanaeth cynghori llawer mwy ar draws Cymru.
- 3.4 Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod y galw am y ddarpariaeth cyngor y mae grant GCRhF yn helpu ei gwrdd yn fwy na'r hyn y gall ei ddarparu. O ganlyniad, rydym o'r farn nad oedd y gwasanaethau a gyllidwyd drwy'r grant GCRhF wedi dyblygu unrhyw wasanaethau eraill oedd ar gael - yn bennaf oherwydd y galw sylweddol y mae'r sector yn ei chael hi'n anodd cwrdd.
- 3.5 Mae'r amser a gymerwyd i sefydlu agweddau ar wasanaethau newydd yn ystod y flwyddyn gyntaf yn 2014/15, yn enwedig y gwasanaethau cymorth dros y ffôn cenedlaethol, - a oedd yn rhannol o ganlyniad i benderfyniad cymharol hwyr gan Lywodraeth Cymru i ddyfarnu cyllid rhan-ffordd drwy'r flwyddyn - yn golygu nad oedd grant GCRhF yn gweithredu mor effeithlon â phosibl yn ystod y flwyddyn gyntaf hon. Fodd bynnag, erbyn 2015/16 roedd yr holl ddarparwyr a ariennir yn gweithredu i gapasiti llawn ac roedd yr allbynnau a adroddwyd ar gyfer chwe mis cyntaf 2015/1, yn gymesur, ac yn wir, yn sylweddol uwch na'r rhai a gyflawnwyd yn ystod y

flwyddyn gyntaf.

- 3.6 Rydym yn dod i'r casgliad bod y cynllun grant GCRhF wedi cael ei reoli'n dda a bod strwythurau priodol wedi cael eu rhoi ar waith gan sefydliadau sy'n derbyn cyllid grant i oruchwylio a chyflwyno gwasanaethau. Rydym hefyd yn dod i'r casgliad bod systemau rheoli cleient priodol wedi eu defnyddio i dystiolaethu allbynnau a chanlyniadau cleient, er bod y diffyg unffurfiaeth o ran adrodd nifer y cleientiaid a gynghorir yn broblemus. Ni chanfuom unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y canlyniadau yn cael eu goramcangyfrif - i'r gwrthwyneb, mewn rhai achosion, roedd yn amlwg bod y ffigurau a oedd yn cael eu hadrodd i Lywodraeth Cymru yn debygol o dan-ddatgan enillion gwirioneddol.
- 3.7 O ran cyllid a chyflawniadau, canfu'r gwerthusiad fod y gost o gefnogi pob cleient yn £93 ar gyfartaledd yn ystod 2014/15 ac yn £56 hyd yn hyn yn ystod 2015/16. Rydym yn dod i'r casgliad bod y grant GCRhF wedi cynnig elw da iawn ar fuddsoddiad hyd yn hyn a, chan gymryd allbynnau'r ail flwyddyn hyd yn hyn fel y data mwyaf realistig ar berfformiad parhaus, yn awgrymu y gellir disgwyl enillion ar fuddsoddiad i fod yn £5.30 am bob £1 a fuddsoddiad ar gyfer y cyfnod sy'n weddill o'r cynllun.
- 3.8 Mae'r sefydliadau a ariennir wedi perfformio'n dda yn erbyn eu targedau priodol er bod y dechrau hwyr yn ystod 2014/15 yn gyfrifol am danberfformiad mewn rhai meysydd. Roedd perfformiad y sefydliadau a ariennir yn llawer gwell yn ystod ail flwyddyn y ddarpariaeth a disgwylir y bydd rhagori sylweddol ar dargedau yn ystod yr ail flwyddyn erbyn Mawrth 2016.
- 3.9 Canfu ein gwerthusiad fod sefydliadau sy'n derbyn cyllid grant yn mabwysiadu dulliau gwahanol o ddyrannu allbynnau cleient i'r cynllun grant GCRhF. O ganlyniad, rhaid i unrhyw adrodd ar niferoedd cleientiaid a gefnogir naill ai wahaniaethu rhwng y rhai a gefnogir yn gyffredinol neu gynnwys datganiad 'Mae grant GCRhF wedi cyfrannu tuag at' fel cafeat. Roedd hefyd yn wir fod ymholiadau cleientiaid ac achosion cleientiaid wedi eu cyfuno mewn rhai achosion tra bod sefydliadau eraill yn adrodd arnynt ar wahân. Un o gryfderau'r cynllun yw'r defnydd o dystiolaeth bendant gan sefydliadau a ariennir i adrodd am y canlyniadau a gyflawnir gan gleientiaid a gefnogir gan y grant GCRhF.
- 3.10 Mae adborth gan fuddiolwyr yn awgrymu bod y gwasanaethau a ddarperir yn aml wedi bod yn ddwys ac yn ymarferol eu natur yn hytrach na dim ond cynnig cyngor a gwybodaeth. Mae'r adborth hefyd yn awgrymu bod y ddarpariaeth sydd wedi bod ar gael wedi bod o ansawdd da iawn.
- 3.11 Tra bod grant GCRhF wedi cyflawni llawer iawn o ran ei waith gyda buddiolwyr, deawn i'r casgliad bod y cynllun ond wedi cael effaith ymylol o ran gwella lefelau integreiddio a chydweithredu ar draws y rhwydwaith cymorth, er bod hyn yn nod gan y cynllun. Deawn i'r casgliad ymhellach bod y grant GCRhF wedi cyfrannu'n gadarnhaol tuag at wella ansawdd y ddarpariaeth cynghori, yn arbennig am ei fod yn amod ar sefydliadau sy'n derbyn cyllid grant i fabwysiadu safonau ansawdd, yn enwedig yng ngoleuni adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaethau sy'n pwyntio at lefelau boddhad uchel iawn yn gyffredinol.

4. Argymhellion

- 4.1 Cynigir yr argymhellion canlynol ar gyfer cyfnod ariannu cyfredol y grant GCRhF:
 - Bod angen diwygio'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) sy'n ymwneud â

chanlyniadau cleient (enillion incwm a dyledion a ddilëwyd) trwy eu cynyddu ar gyfer y cyfnod darparu sy'n weddill

- Bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i fabwysiadu DPA newydd sy'n casglu data ac yn adrodd ar barhad lefelau incwm y cleient
- Bod diffiniad cyffredin yn cael ei fabwysiadu ar draws y cynllun grant GCRhF ar gyfer 'achosion cleient' ac 'ymholiadau cleient' a bod sefydliadau a ariennir yn gwahaniaethu rhwng y rhain wrth adrodd i Lywodraeth Cymru
- Bod sefydliadau sy'n derbyn cyllid ond yn adrodd ar y cleientiaid hynny sydd wedi derbyn cefnogaeth uniongyrchol drwy'r cynllun grant GCRhF (yn hytrach na phob cleient a gefnogir waeth beth fo'r ffynhonnell cyllid) er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i gasglu'r allbynnau hynny y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gyllid grant GCRhF
- Bod sefydliadau sy'n derbyn cyllid hefyd yn adrodd ar y canlyniadau hynny lle mae cynghorwyr o'r farn bod eu cyngor wedi arwain at enillion incwm neu at ddyledion a ddilëwyd, ond lle nad yw hyn wedi cael ei gadarnhau eisoes gan y buddiolwr, fel DPA ar wahân i Lywodraeth Cymru
- Bod y sefydliadau a ariennir sy'n cefnogi nifer fawr iawn o gleientiaid yn lleihau maint y samplau sy'n cael eu defnyddio i roi gwybod am allbynnau megis lefelau boddhad a bod mwy o bwyslais yn cael ei roi ar adrodd ansoddol yn hytrach na meintiol o brofiadau cleientiaid
- Bod Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â sefydliadau a ariennir, yn archwilio sut y gall canlyniadau a chyflawniadau'r holl ddarpariaeth a ariennir gan y grant GCRhF yn cael ei hyrwyddo a'i ledaenu yn well.

4.2 Mae'r argymhellion canlynol yn cael eu gwneud ar gyfer y tymor hirach:

- Fod cyllid ar gyfer gwasanaethau cynghori rheng flaen yng Nghymru yn cael ei ddiogelu ar gyfer y dyfodol rhagweladwy o ystyried yr angen a'r galw sylweddol sydd ar y gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli
- Bod unrhyw gynllun ariannu yn y dyfodol yn cymryd i ystyriaeth yr ymarfer mapio cyfredol sy'n cael ei goruchwyllo gan IAPF a Strategaeth Gwybodaeth a Chynghori i Gymru sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd
- Bod unrhyw broses o wneud cais ariannu yn y dyfodol yn medru cael ei ymestyn er mwyn galluogi darparwyr potensial i archwilio a datblygu cynigion ystyrion ar y cyd, yn arbennig gyda darparwyr lleol neu arbenigol
- Yn ddelfrydol, bod cyllid yn cael ei ddyfarnu cyn dechrau'r flwyddyn ariannol (yn hytrach nag ar y pwynt hanner) er mwyn caniatáu i ddarparwyr a ariennir i wneud y gorau o'r hyn y gellir ei gyflawni yn ystod y flwyddyn gyntaf o ddarparu
- Ei fod yn un o amodau'r cyllid y dylai unrhyw ddarpariaeth a ariennir gael ei integreiddio'n llwyr h.y. bod darpariaeth leol a chenedlaethol/o bell yn cael eu hintegreiddio fel y gall cleientiaid gael eu cyfeirio yn uniongyrchol o un i'r llall (nid yw

hyn wedi bod yn wir ar draws yr holl ddarpariaeth a ariennir gan grant GCRhF yn bresennol)

- Bod Llywodraeth Cymru yn archwilio'r posibilrwydd o symleiddio ffrydiau ariannu yn y dyfodol, yn enwedig ei Grant GCRhF a chynlluniau grant eraill.

Awdurdodwyd yr adroddiad gan Nia Bryer, Old Bell 3 Cyf

Adolygwyd gan Gareth Williams, Old Bell 3 Cyf

oldbell³

Safbwyntiau'r ymchwilydd ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru yw'r safbwyntiau a fynegir yn yr adroddiad hwn.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Dr Semele Mylona

Is-Adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: Semele.Mylona@wales.gsi.gov.uk